# LEWIS, WILLIAM (1814 - 1891), cenhadwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac ieithydd



**Enw:** William Lewis
**Dyddiad geni:** 1814
**Dyddiad marw:** 1891
**Priod:** Mary Lewis (née Roberts)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cenhadwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac ieithydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Evan Lewis Evans

Ganwyd ym Manceinion, ond yr oedd ei rieni yn Gymry o'r ddwy ochr. Rhoes ei fryd ar fynd yn genhadwr i China o dan Gymdeithas Genhadol Llundain. Derbyniwyd ef i Goleg y Methodistiaid yn y Bala yn 1839, ac ordeiniwyd ef yn 1842 i faes cenhadol newydd y Methodistiaid yn yr India. Priododd Mary Roberts, o Dywyn Meirionnydd, a chyrhaeddodd y ddau Fryniau Khasia yn Ionawr 1843, gan lafurio tan 1846 cyn derbyn neb trwy fedydd. Cyhoeddodd nifer o lyfrau yn yr iaith frodorol, a chanlynodd ar gyfieithu 'r *Testament Newydd* o Marc hyd Datguddiad. Rhwng ei briod ac yntau, troswyd *Taith y Pererin* i'r iaith honno. Dychwelodd am seibiant yn 1861, gan i'w iechyd ballu, ond ni allodd fynd yn ôl drachefn, a'i ran wedyn fu diwygio'r Ysgrythurau a chyfoethogi llên Khasia. Bu farw yn Wrecsam 6 Mai 1891.

## Awdur

**Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans**, (1898 - 1978)

## Ffynonellau

J. Hughes Morris, *Ein Cenhadaeth Dramor – Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738185

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu